**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Dr Andrew Goodall
Prif Weithredwr - GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Parc Cathays
Cardiff
CF10 3NQ

16 Hydref 2017

**Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai**

Annwyl Andrew,

Yn ei gyfarfod ar 9 Hydref 2017, trafododd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru am ei chynnydd o ran gweithredu argymhellion 4 a 9 o adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai (Mawrth 2017).

Wedi trafod y wybodaeth ddiweddaraf, mae gan y Pwyllgor nifer o bryderon, gan gynnwys:

- Y diffyg brys yn gyffredinol o ran gwneud cynnydd yn gweithredu argymhellion y Pwyllgor;
- Diffyg eglurder yn yr amserlen ar gyfer cwblhau gwaith safoni dogfennau nyrsio, ac o ran gweithredu system bresgripsiynu electronig;
- Yr iaith aneglur a ddefnyddir, fel "cytuno mewn egwyddor" i ddatblygu datrysiad arlwyo TG.

Mae'r Pwyllgor yn cwestiynu a yw Llywodraeth Cymru yn dangos arweinyddiaeth system ddigon cadarn, gan nodi bod y ffordd ymlaen ar safoni a digido dogfennaeth nyrsio yn ymddangos fel pe bai wedi'i datganoli i Grŵp Cymru Gyfan Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio cyrff GIG.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

Hefyd yn y wybodaeth ddiweddaraf, nodwyd i bapur ategol gael ei gyflwyno i fwrdd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ar 13 Medi ac mai dim ond yn ddiweddar y penodwyd datblygwr meddalwedd yng Ngwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i gefnogi'r gwaith o ddatblygu dogfennaeth nyrsio pan fydd y cyfarwyddwyr nyrsio wedi pennu'r ffordd ymlaen.

Wrth i'r Pwyllgor ystyried y materion hyn dros y blynyddoedd diwethaf, testun pryder iddo yw'r diffyg brys a'r ffaith bod nifer o broblemau systemig wedi codi heb gamau amlwg i ymdrin â hwy yn cael eu cymryd.

Yng ngoleuni'r pryderon hyn, gofynnodd y Pwyllgor i chi ddod i sesiwn dystiolaeth fer ddechrau mis Rhagfyr i drafod y materion hyn ymhellach.  Rwyf ar ddeall bod y Clerc wedi trefnu i chi ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 4 Rhagfyr.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych yn fuan.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**